Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
University Health Board

**Gwybodaeth i Gleifion Allanol**

**Niwroffisiotherapi**

**Ysbyty Gwynllyw**

---

Ar ôl i chi gael eich rhyddhau o ysbyty, cawsoch eich atgyfeirio at yr adran cleifion allanol Niwroffisiotherapi. Mae'n bosibl hefyd i chi gael eich atgyfeirio at y tîm Ail-alluogi ac y byddwch yn cael eich gweld gan y ddau wasanaeth am gyfnod byr.

Adran adsefydlu yw Niwroffisiotherapi. Rydyn ni'n arbenigo mewn trin oedolion sydd wedi cael strôc ac anhwylderau eraill sy'n gysylltiedig â'r system nerfol. Rydyn ni hefyd yn trin cleifion ag anhwylderau symud nad sydd wedi cael diagnosis.

Ar ôl derbyn eich atgyfeiriad, byddwch chi'n cael eich rhoi ar ein rhestr aros. Mae amseroedd aros yn amrywio. Peidiwch â phoeni os nad ydych chi'n clywed gennym ar unwaith.

Pan fydd apwyntiad ar gael, byddwch chi'n derbyn llythyr yn eich gwahodd i gysylltu â ni i gytuno ar ddyddiad ac amser eich asesiad.

Yn eich apwyntiad cyntaf, byddwch chi'n cael eich asesu a bydd hwn yn para am tua awr. Byddai'n ddefnyddiol os byddech chi'n gwisgo dillad llac. Bydd sesiynau triniaeth ddilynol hefyd yn para tua awr. Byddan nhw wedi'u seilio ar gyrraedd goliau a gafodd eu nodi, eu trafod a'u cytuno gyda chi a'ch ffisiotherapydd enwebedig.

Er mwyn mynychu eich apwyntiad gellir trefnu cludiant ambiwlans i chi os byddwch chi angen sgiliau staff ambiwlans cymwys am resymau meddygol neu symudedd.

Mae'r gwasanaeth hwn ar gyfer cleifion nad sy'n gallu:

- teithio ar gludiant cyhoeddus
- teithio gyda pherthnasau mewn car
- gyrru eu hunain i'r apwyntiad

Os ydych chi'n gwneud eich ffordd eich hun i ysbyty, mae'n bosibl y byddwch chi'n gallu hawlio rhywfaint neu'r holl gostau teithio os ydych chi'n derbyn un o'r canlynol:

- Budd-dal cymhorthdal incwm
- Lwfans ceiswyr swyddi ar sail incwm
- Credyd treth gwaith neu gredyd treth plant

**Sut i gael hyd i'r Adran**

1. Ewch i mewn i Ysbyty Gwynllyw drwy ffordd Friars.

2. Ewch i mewn i'r ysbyty drwy fynedfa Casnewydd.

3. Mae'r adran ar y llawr isaf gan ddilyn yr arwyddion i Uned Springfield.

4. Ar ddiwedd y cyntedd, eisteddwch yn yr ystafell aros. Bydd eich ffisiotherapydd yn delio â chi ar amser eich apwyntiad.

**Cyfeiriad yr uned yw:**

Adran Niwroffisiotherapi
Ysbyty Gwynllyw
Stow Hill
Casnewydd
NP20 4SZ

**Ffôn: 01633 - 238389**

Oriau agor: Dydd Llun-dydd Gwener 8.30am – 4.30pm

Os na fydd ateb, cofiwch adael neges gyda'ch enw llawn a rhif cyswllt a bydd rhywun yn rhoi caniad yn ôl i chi.